Perfformiad a Gwella
Performance and Improvement

# Llwybr cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth

## Llwybr Camesgoriad

Gosod teuluoedd wrth galon gofal profedigaeth, ym mhob rhan o Gymru

# Cyflwyniad

**Mae'r llwybr hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal profedigaeth o ansawdd uchel i deuluoedd yn dilyn camesgoriad, beichiogrwydd ectopig neu folar.**

- **Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer y llwybr hwn ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth am NBCP Cymru, gan gynnwys pecynnau adnoddau, padlets a phecynnau cymorth ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth ategol ac arweiniad cenedlaethol ar gael yma.**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Llwybr Beichiogrwydd Camesgoriad, Beichiogrwydd Ectopig a Molar** 3

Pan fydd pryderon ynghylch beichiogrwydd yn cael eu nodi 3

Pan gaiff diagnosis ei gadarnhau neu pan fydd colled yn cael ei nodi 5

Creu atgofion 6

Cynllunio Gofal Personol 7

Opsiynau Rheoli 9

Beichiogrwydd Molar 11

Beichiogrwydd Ectopig 12

Trimestr Cyntaf/Camesgoriad Cynnar 13

Camesgoriad yn yr ail drimestr 14

Beichiogrwydd Lluosog 15

**Ymchwiliadau, Archwiliadau ac Adolygiadau** 16

Histoleg 16

Archwiliad Post-mortem 17

Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol 18

Cofrestru ac Ardystio 20

Angladdau, Claddu ac Amlosgi 21

Ar ôl gadael yr ysbyty 22

# Llwybr Beichiogrwydd Camesgoriad, Beichiogrwydd Ectopig a Molar

## Pan fydd pryderon ynghylch beichiogrwydd yn cael eu nodi

Gall y fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth fod â phoen yn yr abdomen, fod yn gwaedu o'r wain, cael canfyddiadau annisgwyl yn y sgan neu bryderon am feichiogrwydd cynnar mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys gofal brys neu y tu allan i oriau, Unedau Beichiogrwydd Cynnar, gofal sylfaenol, gwasanaethau ambiwlans neu ddarparwyr gofal iechyd preifat, yn ogystal â dros y ffôn.

Mae'r gofal ar y cam hwn yn bwyllog, yn ymatebol ac yn cael ei arwain yn glir. Mae'r dulliau cyfathrebu'n sensitif, yn seiliedig ar wybodaeth glinigol hysbys, ac yn digwydd yn gyflym i leihau pryder yn ystod cyfnod o ansicrwydd.

### Timau

**Bydd gofal pwyllog, ymatebol, sy'n cael ei arwain yn glir yn cael ei ddangos pan:**

- Mae'r hanes clinigol yn cael ei adrodd yn glir, gan gynnwys beichiogrwydd blaenorol, colledion beichiogrwydd a hanes ffrwythlondeb.
- Mae staff yn mynd ati i ofyn am eglurhad pan fydd gwybodaeth yn anghyflawn yn hytrach na dibynnu ar gofnodion ysgrifenedig yn unig.
- Mae cydsyniad yn cael ei roi ar gyfer archwiliad, uwchsain neu ymchwiliad gydag esboniad clir, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd angen ail sganiau neu ail farn.
- Mae gwybodaeth am amserlenni, ansicrwydd ac oedi posibl yn cael ei hegluro'n agored.
- Os oes angen ymgynghori â gweithiwr proffesiynol arall, mae hyn yn cael ei egluro cyn gadael yr ystafell, gyda sicrwydd y bydd staff yn dychwelyd yn brydlon.
- Mae staff sy'n rhoi diagnosis yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol.
- Nad oes cyswllt yn cael ei wneud drwy wasanaethau gofal brys neu mewn argyfwng, bydd trefniadau clir yn cael eu gwneud i glinigwyr adolygu'r fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth heb oedi diangen.

- Mae gofal yn cael ei symud i fan tawel a phreifat lle bynnag y bo modd, neu mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau'r preifatrwydd gorau posibl yn y lleoliad presennol.
- Bydd pryder a thrallod yn cael ei gydnabod, gydag amser yn cael ei roi i holi cwestiynau.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gofal sensitif, ffeithiol a chyflym ac maent:**

- Yn teimlo bod rhywun yn gwrando ar eu pryderon ac yn ymateb iddynt yn brydlon.
- Yn cael profiad cyfathrebu tawel a sensitif mewn lleoliad preifat.
- Yn profi ymdrechion i ddiogelu eu preifatrwydd lle mae gofod yn brin.
- Yn deall pa archwiliadau neu ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal a pham.
- Yn gwybod y gallai ansicrwydd olygu ailadrodd asesiad neu adolygu pellach.
- Yn deall beth fydd yn digwydd nesaf a pha mor hir y gallai hyn ei gymryd.
- Yn teimlo'n dawel eu meddwl pan fydd angen i staff adael yr ystafell i ymgynghori â chydweithwyr.
- Yn cael cyfleoedd i holi cwestiynau a mynegi pryderon.

# Pan gaiff diagnosis ei gadarnhau neu pan fydd colled yn cael ei nodi

Mae modd rhagweld newyddion am gamesgoriad, beichiogrwydd ectopig neu feichiogrwydd molar oherwydd symptomau neu drafodaethau blaenorol, neu gall fod yn sioc lwyr. Mae'r gofal ar y cam hwn yn breifat ac yn dosturiol. Mae'r dulliau **cyfathrebu** yn onest ac yn gyflym, gan gydnabod bod unigolion yn ymateb yn wahanol i newyddion annisgwyl neu drallodus. Y tîm clinigol sy'n dal yn gyfrifol am egluro, y camau nesaf a'r driniaeth barhaus.

## Timau

### Mae gofal sy'n breifat, yn dosturiol ac yn cael ei arwain yn glir yn cael ei ddangos pan:

- Mae'r fenyw/sawl sy'n geni yn cael cynnig cyfle i gael partner neu rywun i'w chefnogi'n bresennol.
- Mae ffeithiau hysbys yn cael eu hegluro'n glir gan ddefnyddio iaith syml. Os bydd terminoleg feddygol yn cael ei defnyddio, maent yn cael eu hegluro mewn iaith syml.
- Mae'r staff yn dilyn arweiniad y fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth o ran terminoleg ac iaith. Lle nad yw hyn yn glir, gofynnir i'r fenyw.
- Pan roddir diagnosis yn ystod archwiliad uwchsain, gofynnir i'r fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth a yw'n dymuno gweld neu gael esboniad o'r canfyddiadau ar y sgrin.
- Mae ansicrwydd, ymchwiliadau pellach neu apwyntiadau ychwanegol yn cael eu hegluro'n glir, gan gynnwys beth fydd yn digwydd nesaf a gyda phwy.
- Mae dogfennau'n cael eu cwblhau gyda gwybodaeth gywir a ffeithiol y mae'r claf yn ymwybodol ohoni ac yn ei deall yn llawn.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig a chyfeiriadau at sefydliadau cymorth priodol yn cael eu darparu.

## Teuluoedd

### Mae teuluoedd yn cael gofal preifat a thosturiol pan fyddant:

- Yn teimlo bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n onest ac yn sensitif.
- Yn deall y diagnosis, yr hyn sy'n hysbys, a beth fydd yn digwydd nesaf.
- Yn clywed iaith sy'n adlewyrchu eu dewisiadau eu hunain.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i gael partner neu rywun i'w cefnogi'n bresennol.
- Yn cael amser i brosesu gwybodaeth a holi cwestiynau.
- Yn cael gwybodaeth ysgrifenedig a gwybod ble i gael rhagor o gymorth.

# Creu atgofion

Mae creu atgofion yn rhan ystyrlon o ofal i lawer o deuluoedd ar ôl colli babi neu feichiogrwydd, er bod dewisiadau'n amrywio'n fawr. Ar y cam hwn, gall teuluoedd deimlo'n ofnus, wedi'u llethu neu'n ansicr ynghylch beth sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw. Mae staff yn darparu cymorth tawel, sensitif ac unigol, gan gynnig dewisiadau heb bwysau na rhagdybiaeth. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n rhoi amser, urddas a dewis iddynt o ran sut maent yn dymuno anrhydeddu a chofio eu baban neu feichiogrwydd.

## Timau

**Darperir cymorth personol, sensitif, i greu atgofion pan:**

- Mae staff yn esbonio dewisiadau **creu atgofion** yn glir ac yn dyner, heb ragdybiaeth na phwysau.
- Mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt a'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Mae gwybodaeth am yr hyn y gellir ei weld yn cael ei rhannu'n sensitif.
- Mae staff yn gyfarwydd ag adnoddau creu atgofion lleol, gan gynnwys cynnig delweddau o'r sgan yn rhad ac am ddim.
- Mae gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am dreulio amser gyda'u baban y tu allan i amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys canllawiau ac opsiynau lleol ac mae'n cael ei hwyluso mewn ffordd urddasol a thosturiol.
- Mae creu atgofion yn adlewyrchu dewisiadau'r teulu, gan gynnwys iaith, beichiogrwydd, rhywedd, diwylliant, crefydd a chredoau personol.
- Mae penderfyniadau am greu atgofion yn cael eu trafod, eu cofnodi a'u hailystyried wrth i ofal barhau.
- Mewn beichiogrwydd lluosog, mae cymorth i greu atgofion yn adlewyrchu'r golled a'r beichiogrwydd sy'n parhau, gyda gofal cydlynol ar draws timau.

## Teuluoedd

**Wrth i staff esbonio'n glir a chefnogi dewisiadau creu atgofion, bydd teuluoedd:**

- Yn cael amser a lle i ystyried sut maen nhw'n dymuno nodi a chofio eu baban neu eu beichiogrwydd.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddeall yr opsiynau sydd ar gael a'r amserlenni ar gyfer penderfynu.
- Yn cael gwybodaeth glir a sensitif am yr hyn i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut y gallai edrychiad neu gyflwr effeithio ar ddewisiadau creu atgofion.
- Yn cael gofal sy'n parchu dewisiadau diwylliannol, ysbrydol a phersonol.
- Yn dawel eu meddwl y gallant newid eu meddwl am benderfyniadau creu atgofion ac yn gwybod yr amserlenni ar gyfer gwneud hynny.
- Yn gweld eu dymuniadau'n cael eu hadlewyrchu yn y gofal a ddarperir.
- Yn gwybod bod cymorth ar gael gan fudiadau trydydd sector ar gyfer brodyr a chwiorydd a'r teulu ehangach.

# Cynllunio Gofal Personol

Mae'r dewisiadau sy'n dilyn diagnosis yn cael eu trafod yn ofalus, yn breifat ac yn glir. Mae timau'n cefnogi teuluoedd i ddeall eu hopsiynau, ac maen nhw'n cael gwybodaeth glir. Mae gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith hygyrch ac mae dealltwriaeth yn cael ei gwirio. Bydd teuluoedd yn cael cefnogaeth i ddeall bod gan ddewisiadau meddygol a llawfeddygol broffiliau risg tebyg, ac nad yw'r naill opsiwn na'r llall yn gynhenid well ar gyfer iechyd corfforol neu seicolegol. Lle bo hynny'n glinigol briodol, mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddewis yr opsiwn sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw ac mae gofal yn parhau'n gyson ni waeth pa opsiwn a ddewisir.

## Timau

**Mae timau'n cefnogi penderfyniadau gwybodus ac yn datblygu neu'n adolygu cynlluniau gofal personol mewn ffordd amserol ac ystyriol. Dangosir hyn gyda'r canlynol:**

- Mae cyswllt allweddol mewn profedigaeth yn cael ei nodi ar y cynllun gofal personol.
- Mae'r **cynllun gofal personol** yn cael ei ailystyried a'i ddiweddaru, ac mae opsiynau ar gyfer lle gofal yn cael eu trafod.
- Mae dewisiadau rheoli poen, gan gynnwys analgesia, yn cael eu trafod yn rhagweithiol ac mae dewisiadau'n cael eu cofnodi.
- Mae trefniadau cyfathrebu, gan gynnwys pwy fydd yn arwain trafodaethau, yn cael eu cofnodi.
- Mae dewisiadau i greu atgofion yn cael eu trafod, eu cofnodi, ac mae teuluoedd yn cael gwybod y gallant newid eu meddwl.
- Pan fydd y fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth yn dychwelyd adref, bydd manylion cyswllt mewn argyfwng a chyngor clir ynghylch pryd i ofyn am help yn cael eu darparu.
- Mae cynlluniau ar waith i'r fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth ddychwelyd i'r ysbyty, gan gynnwys trefniadau mynediad eraill.
- Mae systemau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer marcio cofnod y fenyw/sawl sy'n rhoi genedigaeth i rybuddio staff am y golled yn cael eu defnyddio'n briodol.
- Mae cymorth emosiynol ac ysbrydol yn cael ei gynnig a'i ddogfennu, gan gynnwys atgyfeirio at wasanaethau profedigaeth neu gaplaniaeth arbenigol.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gohebiaeth glir a chydlynol am eu dewisiadau, beth i'w ddisgwyl nesaf, a phwy sy'n eu cefnogi, ac:**

- Yn gwybod pwy yw eu prif gyswllt mewn profedigaeth a sut mae cysylltu â nhw.
- Yn teimlo bod ganddynt wybodaeth am eu dewisiadau a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau.
- Yn deall beth fydd yn digwydd yn ystod pob proses, gan gynnwys lle gallai cynlluniau newid.
- Yn cael gwybodaeth onest a sensitif am beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut bydd yn edrych.

- Yn cael cyfle i adolygu neu ddatblygu cynllun gofal personol sy'n cynnwys creu atgofion.
- Yn deall y dewisiadau rheoli poen sydd ar gael, yn teimlo eu bod yn gallu trafod dewisiadau, a holi cwestiynau.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu a sut i gael cymorth os ydynt yn dychwelyd adref cyn yr apwyntiad.
- Yn rhoi caniatâd i'w nodiadau gael marciwr lleol i ddangos i staff eu bod wedi colli baban.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i gael partner neu rywun i'w cefnogi yn bresennol.
- Yn cael manylion gwasanaethau ysbrydol a bugeiliol yn ogystal â chaplaniaeth a sefydliadau trydydd sector fel The Miscarriage Association, The Ectopic Pregnancy Trust neu Molar Pregnancy Support and Information.

# Opsiynau Rheoli

Ar ôl cadarnhau camesgoriad, beichiogrwydd ectopig neu feichiogrwydd molar, bydd trafodaethau am opsiynau rheoli yn cael eu trafod mewn lleoliad addas, gyda gofal, preifatrwydd ac eglurder. Gall teuluoedd fod mewn sioc neu drallod, a gallant gael mwy o drafferth amgyffred gwybodaeth. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn iaith hygyrch, ar gyflymder priodol, ac mae dealltwriaeth yn cael ei gwirio drwyddi draw.

Lle bo hynny'n glinigol briodol, caiff teuluoedd eu cefnogi i ystyried opsiynau disgwylgar, meddygol neu lawfeddygol. Mae'r wybodaeth yn glir ac mae'r gofal yn parhau'n dosturiol ac yn gyson ni waeth beth yw'r opsiwn a ddewisir. Y tîm clinigol sy'n parhau'n gyfrifol am gydlynu fel nad yw teuluoedd yn cael eu gadael i wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain mewn cyfnod bregus.

## Timau

**Mae staff yn rhoi gwybodaeth glir a realistig am ddewisiadau meddygol a llawfeddygol, gan gynnwys:**

- Beth mae pob triniaeth yn ei olygu a ble mae gofal yn digwydd.
- Pwy fydd yn bresennol ac a fydd cleifion eraill gerllaw.
- Y risgiau posibl, cymhlethdodau posibl, hyd disgwyliedig yr arhosiad a'r broses o wella.
- Y goblygiadau posibl i iechyd a ffrwythlondeb y fenyw/sawl sy'n rhoi genedigaeth.
- Sut y gallai'r dull a ddewiswyd effeithio ar ddewisiadau o ran Archwiliad post-mortem a chreu atgofion, neu gyfyngu arnynt.
- Gwybodaeth a manylion cyswllt sut i drafod ymhellach neu newid yr opsiwn rheoli a ddewiswyd.
- Gyda phwy i gysylltu os bydd y camesgoriad yn digwydd gartref, cyn yr apwyntiad.

## Llawfeddygol

Pan fydd rheolaeth lawfeddygol yn cael ei hargymell neu ei dewis, bydd y broses dderbyn, y gwaith paratoi cyn llawdriniaeth a'r dull llawfeddygol (gan gynnwys llawdriniaeth laparosgopig neu agored) yn cael eu hegluro'n glir.

## Meddygol

- Pan gaiff proses reoli ddisgwylgar neu feddygol ei dewis, bydd angen egluro'n glir yr angen am fonitro parhaus ac apwyntiadau dilynol, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai fod angen triniaeth neu lawdriniaeth bellach.
- Bydd gwybodaeth glir am yr hyn i'w ddisgwyl yn cael ei rhannu, gan gynnwys rheoli poen, gwaedu, a phryd i geisio gofal brys.
- Bydd poenladdwyr yn cael eu cynnig neu gyngor ar opsiynau dros y cownter yn ogystal â'r angen tebygol am badiau misglwyf sy'n amsugno mwy.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gofal personol ac yn gwneud dewis gwybodus pan fyddant:**

- Yn cael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am yr hyn y mae pob triniaeth yn ei olygu.
- Yn teimlo bod gwybodaeth am opsiynau triniaeth yn glir.
- Yn gwybod y gallent ailedrych ar benderfyniadau rheoli neu eu newid.
- Yn deall ble bydd y gofal yn digwydd, pwy fydd yn darparu'r gofal a'r lleoliad a'r amserlenni tebygol.
- Yn deall y risgiau, y cymhlethdodau a'r broses wella ddisgwyliedig ar gyfer pob opsiwn.
- Yn cael gwybodaeth onest ond tosturiol am greu atgofion.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ofyn cwestiynau am iechyd a ffrwythlondeb yn y dyfodol.
- Yn deall pa ymchwiliadau sy'n bosibl ar ôl pob llawdriniaeth.
- Yn cael gwybodaeth am sut i gael gafael ar gymorth.

## Ystyriaethau ar gyfer mathau penodol o golledion

Mae gwahanol risgiau clinigol a gofynion dilynol ynghlwm wrth gamesgoriad, beichiogrwydd ectopig a beichiogrwydd molar. Mae'r gofal ar y cam hwn yn cael ei deilwra i'r anghenion meddygol ac emosiynol penodol sy'n gysylltiedig â phob diagnosis. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n onest ac ar gyflymder priodol, gan gydnabod y gallai teuluoedd fod yn prosesu colli beichiogrwydd a phryderon am iechyd uniongyrchol a ffrwythlondeb yn y dyfodol.

# Beichiogrwydd Molar

Mae beichiogrwydd molar yn anghyffredin a gall fod yn annisgwyl ac yn anodd ei ddeall. Mae'n bosibl y bydd diagnosis yn cael ei amau gydag uwchsain neu ei gadarnhau yn dilyn archwiliad histolegol ar ôl camesgoriad.

## Pan fydd beichiogrwydd molar yn cael ei amau

Pan mae diagnosis yn ansicr, mae gofal yn cydnabod pa mor anodd yw aros ac effaith emosiynol ansicrwydd.

### Timau

**Bydd gofal cefnogol pan nad yw diagnosis wedi'i gadarnhau yn cael ei ddangos pan:**

- Mae'r angen am asesiad pellach neu ail archwiliadau yn cael ei egluro'n glir.
- Mae'r rhesymau dros ansicrwydd yn cael eu disgrifio'n onest, gan gynnwys yr hyn sy'n hysbys a'r hyn nad yw wedi'i gadarnhau eto.
- Mae effaith emosiynol aros am eglurhad yn cael ei gydnabod.
- Mae gwybodaeth am y **diagnosis** posibl yn cael ei rhannu â theuluoedd.

**Pan mae angen atgyfeirio i ganolfan arbenigol, gan gynnwys un y tu allan i Gymru:**

- Mae'r rheswm dros atgyfeirio yn cael ei egluro'n glir.
- Mae manylion yr uned dderbyn, gan gynnwys gwybodaeth gyswllt, yn cael eu rhoi ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Mae'r broses gyfeirio a beth fydd yn digwydd nesaf yn cael ei egluro.

### Teuluoedd

**Yn ystod y cyfnod hwn, mae teuluoedd:**

- Yn deall pam mae angen asesiad pellach, ble a gyda phwy.
- Yn teimlo bod ansicrwydd yn cael ei gydnabod yn hytrach na'i ddiystyru.
- Yn deall pam y gallai fod angen atgyfeirio i ganolfan arbenigol.

# Beichiogrwydd Ectopig

Mae modd gwneud diagnosis o feichiogrwydd ectopig yn dilyn symptomau fel poen yn yr abdomen a/neu waedu o’r wain, wrth ymchwilio i feichiogrwydd mewn lleoliad anhysbys, argyfwng, neu ar ôl amau camesgoriad cynharach.

## Pan gaiff beichiogrwydd ectopig ei gadarnhau

Gall y broses reoli olygu aros, triniaeth feddygol neu lawfeddygol, yn dibynnu ar gyflwyniad clinigol a risg. Mae’r gofal yn unigol, ac mae penderfyniadau’n cael eu gwneud gydag esboniad clir o fanteision, risgiau ac ansicrwydd.

## Timau

**Mae gofal clir, wedi’i gydlynu, yn cael ei ddangos pan:**

- Mae’r diagnosis a’r risgiau cysylltiedig yn cael eu hegluro mewn iaith syml.
- Mae canlyniadau llawfeddygol posibl, gan gynnwys yr effaith ar y tiwb ffalopaidd lle bo hynny’n berthnasol, yn cael eu trafod yn onest.
- Mae gwybodaeth am sefydliadau cymorth perthnasol, gan gynnwys yr **Ectopic Pregnancy Trust**.

## Teuluoedd

**Yn ystod y diagnosis a’r broses reoli, mae teuluoedd:**

- Yn deall y diagnosis a’r risgiau cysylltiedig.
- Yn deall yr angen i fonitro neu gael triniaeth bellach lle bo hynny’n berthnasol.
- Yn cael gwybodaeth onest am ganlyniadau llawfeddygol posibl a’r goblygiadau o ran ffrwythlondeb.
- Yn gwybod sut mae cysylltu â sefydliadau cymorth, fel yr Ymddiriedolaeth Beichiogrwydd Ectopig.

# Trimestr Cyntaf/Camesgoriad Cynnar

Gall camesgoriad cynnar arwain at waedu, poen neu ganfyddiadau annisgwyl yn y sgan. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n onest ac ar gyflymder priodol, gan gydnabod y gall aros i gamesgoriad ddigwydd neu ei wynebu gartref fod yn arbennig o anodd. Gall y broses reoli olygu aros, triniaeth feddygol neu lawfeddygol, yn dibynnu ar amgylchiadau clinigol a dewis personol. Gall camesgoriad cynnar arwain at waedu, poen neu ganfyddiadau annisgwyl yn y sgan. Efallai fod y fenyw/y sawl sy'n rhoi genedigaeth eisoes wedi cael camesgoriad gartref a gall fod ag olion y beichiogrwydd neu hebddynt.

## Timau

### Mae gofal tosturiol, wedi'i gydlynu, yn cael ei ddangos pan:

- Mae pryderon yn cael eu cydnabod yn brydlon a'u cymryd o ddifrif.
- Mae gofal yn cael ei roi mewn amgylchedd priodol a phreifat gan staff sy'n sensitif i anghenion y teulu.
- Mae'r diagnosis ac unrhyw ansicrwydd yn cael eu hegluro'n glir, gan gynnwys yr hyn sy'n hysbys a'r hyn sydd angen ei asesu ymhellach.
- Mae'r cyfyngiadau posibl o ran daearyddiaeth neu leoliad gofal ar opsiynau rheoli yn cael eu hesbonio, yn enwedig os rhoddir unrhyw driniaeth mewn ysbyty neu Fwrdd arall.
- Pan fydd camesgoriad yn digwydd yn y lleoliad clinigol, mae preifatrwydd yn cael ei sicrhau a chymorth yn cael ei gynnig.

## Teuluoedd

### Yn ystod gofal camesgoriad cynnar, mae teuluoedd:

- Yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.
- Yn cael gofal mewn amgylchedd preifat a phriodol.
- Yn deall y diagnosis ac unrhyw feysydd ansicr.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi p'un ai a yw'r camesgoriad yn digwydd gartref neu yn yr ysbyty.
- Yn cael amser i ystyried yr opsiynau sydd ar gael a deall yn llawn y penderfyniadau y bydd angen iddynt eu gwneud.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd unrhyw bryderon neu argyfwng.

# Camesgoriad yn yr ail drimestr

Gall camesgoriad yn yr ail drimestr gynnwys ysgogi esgoriad a genedigaeth. Mae gofal ar y cam hwn yn cydnabod gofynion corfforol esgor ochr yn ochr â galar acíwt. Mae'r dulliau cyfathrebu'n glir, yn dosturiol ac yn cael eu rhannu i gefnogi dealltwriaeth. Mae teuluoedd yn cael eu paratoi'n onest am yr hyn i'w ddisgwyl, gan gynnwys hyd yr esgoriad a sut bydd eu baban yn edrych, gan gael amser, preifatrwydd a dewis ar yr un pryd.

Gall opsiynau rheoli amrywio yn dibynnu ar y gwasanaeth a gaiff ei ddarparu'n lleol.

## Timau

### Mae gofal tosturiol, wedi'i gydlynu, yn cael ei ddangos pan:

- Mae gofal yn cael ei roi mewn amgylchedd priodol a phreifat gan staff sy'n sensitif i anghenion y teulu.
- Mae'r broses ysgogi, yr esgor a'r enedigaeth yn cael ei hegluro'n glir, gan gynnwys yr opsiynau lladd poen sydd ar gael, y gall yr esgor gymryd oriau lawer ac y gallai fod angen aros dros nos.
- Mae'r trefniadau ar gyfer lleoliad y geni yn cael eu hegluro, gan gynnwys unrhyw broses drosglwyddo i uned arall lle bo angen.
- Mae rheolaeth lawfeddygol yn cael ei hystyried a'i thrafod fesul achos, gan gynnwys argaeledd a lleoliad gwasanaethau arbenigol.

## Teuluoedd

### Yn ystod camesgoriad yn yr ail drimestr, mae teuluoedd:

- Yn cael gofal mewn amgylchedd preifat a phriodol.
- Yn deall beth i'w ddisgwyl yn ystod ysgogi, yr esgor a'r enedigaeth a ble bydd hyn yn digwydd.
- Yn deall y gwahaniaethau rhwng ysgogi a rheoli llawfeddygol.

# Beichiogrwydd Lluosog

Mae gofal mewn profedigaeth mewn beichiogrwydd lluosog yn cydnabod cymhlethdod galaru un baban neu fwy wrth fwrw ymlaen â beichiogrwydd sy'n parhau. Gall teuluoedd brofi profedigaeth ochr yn ochr â gobaith, pryder a gofynion gofal clinigol parhaus.

## Timau

### Mae gofal tosturiol a phersonol yn cael ei ddangos:

- Pan fydd cymhlethdod emosiynau yn cael ei gydnabod, a phan fydd profedigaeth ochr yn ochr â'r beichiogrwydd sy'n parhau yn cael ei nodi.
- Bydd yr iaith yn cael ei defnyddio'n ofalus, a dylid osgoi cyfeiriadau at y baban sy'n goroesi fel 'canlyniad cadarnhaol' mewn trafodaethau am golled.
- Rhoddir gwybodaeth glir am unrhyw fonitro ychwanegol neu apwyntiadau sydd eu hangen ar gyfer y beichiogrwydd sy'n parhau.
- Bydd cymorth arbenigol mewn profedigaeth yn cael ei gynnig i deuluoedd sy'n colli mewn beichiogrwydd lluosog, gan gynnwys adnoddau gan **Twins Trust**.
- Bydd y system signalau y cytunwyd arni'n lleol yn cael ei defnyddio i rybuddio staff bod hwn yn feichiogrwydd lluosog gyda cholled.
- Mae cofnodion meddygol yn cael eu hadolygu ac mae systemau signalau'n cael eu deall a'u defnyddio'n gyson.

## Teuluoedd

### Wrth i ofal gydnabod profedigaeth a beichiogrwydd sy'n parhau, mae teuluoedd:

- Yn teimlo bod eu galar yn cael ei gydnabod, hyd yn oed pan fydd un baban neu fwy yn dal yn fyw.
- Yn cael pobl yn siarad â nhw mewn ffyrdd sy'n cydnabod eu colled a'r beichiogrwydd sy'n parhau.
- Yn cael peidio esbonio dro ar ôl tro mai beichiogrwydd lluosog oedd hwn a chael y dewis i gyfeirio ato fel hyn ai peidio.
- Yn teimlo'n hyderus bod gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal yn deall eu hamgylchiadau ac yn cyfathrebu'n gyson.
- Yn deall y cynllun ar gyfer monitro a gofalu yn ystod y beichiogrwydd sy'n parhau.
- Yn cael cynnig ffynonellau cymorth arbenigol sy'n berthnasol i golli yn ystod beichiogrwydd lluosog.

# Ymchwiliadau, Archwiliadau ac Adolygiadau

**Bydd archwiliadau ac ymchwiliadau** yn cael eu cynnig i gefnogi dealltwriaeth teuluoedd o'r golled ac unrhyw oblygiadau ar gyfer beichiogrwydd yn y dyfodol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn sensitif, gan gydnabod y gallai rhai teuluoedd fod wedi cael nifer o ymchwiliadau eisoes ac y gallai trafodaeth bellach beri gofid iddynt.

## Histoleg

### Timau

**Mae timau sy'n darparu gofal yn rhoi gwybodaeth glir a gonest am yr hyn sy'n cael ei argymell, beth sy'n ddewisol, y cyfyngiadau, a'r amserlen pan fyddant yn egluro:**

- Ei bod yn gyffredin cynnal archwiliad histolegol a faint o amser y gall hyn ei gymryd.
- Pan fydd archwiliad histolegol o'r beichiogrwydd neu'r brych yn cael ei argymell, bydd hyn yn cael ei egluro i'r teulu ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ar yr archwiliad.
- Efallai na fydd yr archwiliad hwn yn darparu gwybodaeth am achos posibl am y farwolaeth neu golli beichiogrwydd.
- Efallai y bydd ymchwiliadau eraill yn cael eu cynnal, fel profion gwaed a geneteg.

### Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gofal clir a gonest pan fyddant yn gwybod:**

- Bod histoleg yn arfer cyffredin ac mai eu dewis nhw yw ei chynnal ai peidio.
- Sut a phryd y maent yn debygol o gael canlyniadau.
- Sut y gall amseru'r broses histoleg effeithio ar sicrhau bod yr olion ar gael ar gyfer trefniadau angladd/gwaredu olion personol.
- Pa ymchwiliadau eraill y gellir eu cynnal.

# Archwiliad Post-mortem

## Timau

### Dangosir ymarfer clir a sensitif pan:

- Mae caniatâd post-mortem yn cael ei roi i aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi a'i gofrestru i gael caniatâd.
- Mae pwrpas, proses a chyfyngiadau Archwiliadau Post-mortem yn cael eu hegluro'n glir ac yn sensitif.
- Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal mewn ysbyty arall, gan gynnwys y tu allan i Gymru, caiff hyn ei egluro'n glir ynghyd â'r rhesymau a'r amserlenni disgwyliedig.
- Mae trefniadau cludo a thrin yn cael eu disgrifio'n glir, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol, gyda sicrwydd bod y gofal yn barchus ac yn urddasol.
- Mae amserlenni tebygol ar gyfer dychwelyd corff y baban neu olion y beichiogrwydd yn cael eu trafod, a phryd bydd y canlyniadau ar gael.
- Mae cyswllt penodol yn cael ei nodi i gydlynu'r gwaith o gyfleu canlyniadau.
- Pan fydd eitemau personol yn mynd gyda'r archwiliad, bydd teuluoedd yn cael eu sicrhau bod eitemau'n cael eu trin yn ofalus a'u dychwelyd lle bynnag y bo modd, er na ellir gwarantu hyn.
- Mae teuluoedd yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi dealltwriaeth o gydsyniad post-mortem.

## Teuluoedd

### Mae teuluoedd yn cael gofal diogel, clir a gwybodus pan fyddant:

- Yn cael esboniadau clir ynghylch pam y gallai post-mortem gael ei argymell.
- Yn deall pwy fydd yn nodi cydsyniad a sut bydd y broses yn cael ei chynnal, gan gynnwys y pwrpas ac unrhyw gyfyngiadau.
- Yn cael gwybod os bydd eu baban neu olion eu beichiogrwydd yn cael eu trosglwyddo ac yn deall pam.
- Yn teimlo'n dawel eu meddwl ynghylch sut y bydd eu baban neu olion eu beichiogrwydd yn cael gofal wrth iddynt gael eu cludo a'u harchwilio.
- Yn deall yr amserlen debygol ar gyfer dychwelyd eu baban neu olion eu beichiogrwydd ac o ran cael y canlyniad.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu ynghylch camau dilynol a chanlyniadau.

# Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol

Mae'r Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn rhan o'r broses adolygu ffurfiol ar ôl colled lle mae'r cyfnod beichiogrwydd yn 22 wythnos +0. Mae teuluoedd yn delio â chwestiynau parhaus am farwolaeth eu baban, ac mae gwybodaeth glir am bwrpas, proses a chanlyniadau'r adolygiad yn cael ei darparu'n gyson. Mae modd cyfeirio unrhyw faban a gaiff ei eni sy'n dangos arwyddion o fywyd at yr Archwilydd Meddygol.

## Timau

### Bydd ymarfer Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn cael ei gyflwyno'n sensitif a strwythuredig pan:

**Cyn yr adolygiad:**

- Mae pwrpas yr **Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol** yn cael ei egluro'n glir, ac mae gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig yn cael ei darparu.
- Mae amserlenni realistig yn cael eu trafod yn agored, gan gynnwys cydnabod yr amser sydd ei angen i gwblhau'r adolygiad.
- Mae teuluoedd yn cael gwahoddiad i rannu eu safbwyntiau, eu cwestiynau a'u pryderon i lywio'r adolygiad.
- Mae enw cyswllt yn cael ei nodi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i ymateb i gwestiynau drwy gydol y broses.

**Yn ystod yr adolygiad:**

- Mae cyfarfodydd yn cael eu harwain gan yr uwch glinigydd neu'r clinigwyr sydd wedi darparu dilyniant mewn gofal.
- Mae'r adolygiad yn ystyried gofal clinigol ac emosiynol, gyda mewnbwn gan staff perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol lle bo hynny'n berthnasol.
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol rhwng staff sy'n ymwneud â gofal y fenyw/sawl sy'n rhoi genedigaeth, gyda'r broses gydlynu'n cael ei harwain gan y prif gyswllt mewn profedigaeth.

**Ar ôl yr adolygiad:**

- Mae cyfarfod dilynol yn cael ei drefnu, gyda gwybodaeth glir yn cael ei darparu am bwy fydd yn bresennol.
- Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad tawel a phriodol.
- Mae canfyddiadau ymchwiliadau a'r Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn cael eu hegluro'n glir ac yn sensitif.
- Mae'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad yn cael eu hamlinellu a'u trafod.
- Mae amser yn cael ei neilltuo ar gyfer holi cwestiynau, cael eglurhad, a myfyrio.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod bod adroddiad cryno ysgrifenedig ar gael, gyda hyblygrwydd ynghylch sut a phryd y caiff hwn ei rannu.

## Teuluoedd

**Wrth i'r Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol gael ei egluro, ei gydlynu a'i ddilyn gan staff, mae teuluoedd:**

- Deall pwrpas yr Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol a sut mae'n cael ei gynnal.
- Yn gwybod sut y gallant gyfrannu eu safbwyntiau a'u cwestiynau.
- Yn cael diweddariadau yn ystod y broses adolygu ac yn gwybod â phwy i gysylltu.
- Yn cael amserlenni realistig ac yn deall pryd i ddisgwyl gwybodaeth.
- Yn cael esboniad clir o ganfyddiadau'r adolygiad ac unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohono.
- Yn teimlo eu bod yn gallu holi cwestiynau a thrafod y canlyniadau mewn lleoliad preifat a phriodol.

## Cofrestru ac Ardystio

Mae’r trefniadau ar gyfer cofrestru ac ardystio yn amrywio yn dibynnu ar y cyfnod beichiogrwydd ac amgylchiadau’r farwolaeth neu’r golled. Mae gofal ar y cam hwn yn cael ei gydlynu a’i gyfleu’n glir, gan gydnabod bod y prosesau hyn yn digwydd ochr yn ochr â galar acíwt.

Mae tystysgrifau dewisol sy’n nodi colledion cyn 24 wythnos ar gael o The Miscarriage Association, The Ectopic Pregnancy Trust a Sands.

### Timau

**Bydd cefnogaeth sensitif a chywir yn cael ei rhoi o ran cofrestru ac ardystio pan:**

- Mae timau’n egluro prosesau cofrestru ac ardystio’n glir ac yn sensitif, yn unol â chyfnod y beichiogrwydd ac amgylchiadau marwolaeth y baban.
- Mae trafodaethau yn cael eu cynnal mewn lleoliad preifat, gyda digon o amser i holi cwestiynau.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei rhoi i gefnogi teuluoedd i lywio drwy’r prosesau cofrestru ac ardystio.
- Mae’r cyfrifoldeb dros arwain trafodaethau yn glir, gyda chysondeb lle bynnag y bo modd.

### Teuluoedd

**O ganlyniad i’r gefnogaeth hon, mae teuluoedd:**

- Yn deall pa gofrestriad neu ardystiad sydd ei angen yn eu hamgylchiadau nhw.
- Yn gwybod pwy sy’n eu cefnogi gyda’r prosesau hyn a phwy i gysylltu â nhw i ofyn cwestiynau.
- Yn cael gwybodaeth ar gyflymder maent yn gallu delio ag ef, mewn lleoliad preifat a pharchus.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i lywio’r broses gofrestru ac ardystio ochr yn ochr â’u galar.
- Yn cael mynediad at wybodaeth ysgrifenedig i gyfeirio ati ar ôl trafodaethau.

# Angladdau, Claddu ac Amlosgi

Mae trefniadau angladd yn rhan o'r prosesau yn dilyn marwolaeth. I deuluoedd, mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod sy'n arwyddocaol yn emosiynol ac efallai y byddant yn teimlo eu bod yn anodd eu trafod. Mae staff yn tywys teuluoedd drwy'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a'r amserlenni, gan ddarparu gwybodaeth glir a chaniatáu amser iddynt feddwl. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n cefnogi dewis ar sail gwybodaeth ac sy'n parchu sut a phryd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Timau

### Bydd cefnogaeth sensitif a gwybodus ynghylch y trefniadau hyn yn cael ei chynnig pan:

- Mae gan staff fynediad at **adnoddau gwybodaeth** cyfredol i gefnogi trafodaethau am gladdu ac amlosgi, gan gynnwys claddu gwyrdd.
- Mae digon o amser yn cael ei neilltuo i ystyried pob opsiwn, gan gynnwys y cyfle i feddwl gartref cyn cadarnhau penderfyniad.
- Mae penderfyniadau, gan gynnwys pan fydd gwybodaeth yn cael ei gwrthod neu pan na fydd penderfyniad yn cael ei wneud, yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnod meddygol.
- Mae rhagdybiaethau'n cael eu hosgoi, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar gyfnod beichiogrwydd, diwylliant, rhywedd, crefydd neu gredoau personol.
- Mae atgyfeiriad at ofal ysbrydol neu fugeiliol yn cael ei gynnig, wedi'i arwain gan ddewisiadau'r teulu.

**Mae'r wybodaeth lafar ac ysgrifenedig fydd yn cael ei rhannu â theuluoedd yn cynnwys:**

- Dewisiadau claddu neu amlosgi wedi'u trefnu gan yr ysbyty ac unrhyw gostau cysylltiedig.
- Y broses ar gyfer dewis trefniadau preifat, gan gynnwys manylion trefnwyr angladdau lleol.
- Esboniad clir y gall rhai trefnwyr angladdau ddarparu gwasanaethau sylfaenol yn ddi-dâl, tra gallai gwasanaethau ychwanegol arwain at gostau.
- Amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a'u cyfleu, gan gynnwys proses yr ysbyty os na chaiff penderfyniad ei gyfleu.
- Gwybodaeth am ofynion claddu neu amlosgi brys.

## Teuluoedd

### Wrth i staff esbonio a chefnogi trefniadau'r angladd, mae teuluoedd:

- Yn deall yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer claddu neu amlosgi.
- Yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser cyn cadarnhau penderfyniadau.
- Yn deall yr hyn y gall yr ysbyty ei drefnu a'r hyn y gallant ddewis ei drefnu eu hunain.
- Yn cael gwybodaeth glir am gostau ac amserlenni.
- Yn teimlo bod eu dewisiadau diwylliannol, crefyddol a phersonol yn cael eu parchu.
- Yn gwybod ble i gael gafael ar ragor o gymorth os oes angen help arnynt i wneud penderfyniadau.

# Ar ôl gadael yr ysbyty

Mae'r Gofal mewn Profedigaeth yn parhau wrth baratoi i adael yr ysbyty a dychwelyd adref. Mae gwybodaeth yn cael ei chydlynu a'i chyfleu'n glir i gefnogi teuluoedd wrth wella'n gorfforol a delio â galar acíwt.

## Timau

**Cyn rhyddhau, mae gofal wedi'i gydlynu yn cael ei ddangos pan:**

- Mae gwybodaeth glir yn cael ei rhoi i deuluoedd am boen barhaus, gwaedu a newidiadau corfforol ôl-enedigol, gan gynnwys pryd a sut i ofyn am gyngor meddygol.
- Mae llaethiad yn cael ei drafod yn sensitif, gan gynnwys ataliad, gwasgiad neu roi yn dibynnu ar y cyfnod beichiogrwydd a dewis y fenyw/sawl sy'n rhoi genedigaeth.
- Mae'r cymorth seicolegol ac emosiynol sydd ar gael drwy wasanaethau amenedigol, gofal sylfaenol a sefydliadau trydydd sector yn cael ei egluro.
- Mae gwybodaeth am reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â babanod yn cael ei rhannu, gan gynnwys dewisiadau cynlluniau postio cenedlaethol.
- Mae'r holl drafodaethau, penderfyniadau a chynlluniau y cytunwyd arnynt eu cofnodi'n glir yn y cofnod meddygol.

## Teuluoedd

**Wrth i drefniadau dilynol gael eu hegluro, eu cydlynu a'u hailystyried gan staff, bydd teuluoedd:**

- Yn gwybod pwy fydd yn cysylltu â nhw gyda chanlyniadau unrhyw adolygiadau ac ymchwiliadau.
- Yn gwybod sut i drefnu ôl-drafodaeth a'r broses ar gyfer rhoi adborth, cyfleu pryderon neu gwynion.
- Yn cael gwybodaeth am eu symptomau corfforol, eu proses wella a sut i gael gafael ar ofal parhaus.
- Yn gwybod pa wasanaethau cymorth seicolegol ac emosiynol sydd ar gael iddynt.
- Yn cael gwybodaeth am fudiadau cefnogi lleol a chenedlaethol.
- Yn cael gwybodaeth am reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â babanod.

GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella Performance and Improvement